**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - ADDYSG A CHYNHWYSIANT**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a gynhaliwyd Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2023 am 5.00 pm ym .

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd S.Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd C Preedy

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd K Webb
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd C Lisles

## Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol

Mrs R Lydon, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol
Mr M Thomas, Cynrychiolydd NEU
Mr M Veale, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms C Edwards, Pennaeth Trawsffurfio Gwasanaethau a Systemau Data
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr T Britton, Pennaeth Cyflawniad RhCT - Sector Cynradd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mrs T Watson, Uwch Swyddog Democrataidd a Craffu

**6 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Smith a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol Wood, a'r Aelod Cyfetholedig Mr Booth.

**7 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**8 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Ebrill a 20 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir.

**9 DOLENNI YMGYNGHORI**

Yn dilyn yr ymgynghoriadau agored gafodd eu cynnal gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am yr ymgynghoriad fydd efallai o ddiddordeb iddyn nhw.

**10 RHAGLEN WAITH DDRAFFT 2023-24**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo Rhaglen Waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24 a chyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r rhaglen waith yma. Cafodd yr Aelodau wybodaeth gefndirol yn Adran 4.1 i Adran 4.3 a rhoddwyd gwybod bod y rhaglen ddiwygiedig wedi cael ei thrafod gan y Cabinet, a bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod y rhaglen ym mis Medi cyn rhoi adborth i'r Pwyllgor yma. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ymlaen i drafod Adran 5 o'r adroddiad, meysydd craffu i'w trafod, gan bwysleisio y dylai Aelodau nodi ble mae modd cyflawni'r gwerth mwyaf posibl wrth fynd ati i drafod unrhyw feysydd y maen nhw'n dymuno eu diwygio neu'u hychwanegu. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi cydnabod bod y Pwyllgor yma'n bwyllgor prysur gyda chylch gorchwyl eang, felly roedd hi'n bwysig nodi a chanolbwyntio ar faterion a allai ychwanegu gwerth a llywio gwaith datblygu polisïau.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu am gyflwyno'r adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth rhwng Aelodau a Swyddogion, cafodd y diwygiadau/ychwanegiadau canlynol eu cymeradwyo:

- Symud adroddiad Argymhellion Estyn i dymor yr Hydref;
- Symud yr adroddiad ar ddata Mynychu'r Ysgol o dymor y Gwanwyn i dymor yr Hydref;
- Symud yr adroddiad ar gynnig y Cwricwlwm Ôl-16 i dymor y Gwanwyn.
- Ychwanegu eitem ar Gynlluniau Teithio i'r rhestr o eitemau heb ddyddiad.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno ar y materion a fydd yn cael eu cynnwys yn Rhaglen Waith 2023/24 y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant (fel sydd wedi'u nodi yn **Atodiad A**) gan nodi'r diwygiadau perthnasol yn ôl yr angen;

2. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhoi gwybod i'r Aelod perthnasol o'r Cabinet a'r Swyddog perthnasol am y materion sydd wedi'u nodi

fel materion a fydd yn cael eu craffu cyn i'r Cabinet eu trafod.

3. Cytuno y bydd y Rhaglen Waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y materion sydd wedi'u nodi fel materion i'w trafod yn berthnasol a sicrhau bod unrhyw atgyfeiriadau pellach yn cael eu cynnwys; a

4. Trafod, ble y bo'n addas, unrhyw eitemau y byddai modd eu cyflwyno i'r Pwyllgor fel adroddiadau gwybodaeth, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau drafod unrhyw eitemau brys neu roi cyfle i Aelodau drafod eitemau sydd heb ddyddiad wedi'i bennu ond sydd wedi'u nodi gan y Pwyllgor fel eitemau i'w trafod.

5. Trafod a phennu unrhyw eitemau y mae'r Aelodau'n dymuno craffu arnyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

**11 ADRODDIAD AR Y CYLCH GORCHWYL A GORFFEN MEWN PERTHYNAS Â'R ADRODDIAD AR FODERNEIDDIO YSGOLION – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY BAND B**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad ar y cylch gorchwyl a gorffen mewn perthynas â'r adroddiad ar foderneiddio ysgolion – yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Band B. Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybodaeth gefndirol yn Adran 3, gan nodi bod Aelodau wedi gweld yr Adroddiad gan Estyn am Wasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn ystod y cyfarfod pwyllgor ar 20 Mehefin 2023. Tynnodd sylw at yr ymateb gan Estyn, ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad, cyn esbonio'r ffordd ymlaen a'r camau nesaf.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu am gyflwyno'r adroddiad.

Roedd Aelod yn gwbl gefnogol o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ond roedden nhw'n ystyried y broses yn broses dwy gam, felly roedd angen adroddiad ysgrifenedig neu ddadansoddiad er mwyn cyd-fynd ag unrhyw ymweliadau.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mai'r gobaith yw manteisio ar adnoddau craffu er mwyn casglu a rhannu'r adborth sy'n cael ei ddarparu drwy'r cylchoedd trafod, ac ar adegau allweddol drwy gydol y broses, a rhannu'r adborth yma gyda'r Pwyllgor. O safbwynt craffu, roedd y Cyfarwyddwr yn gobeithio y byddai modd defnyddio hyn i ddarparu argymhellion ystyrlon, ac felly pe byddai'r Cyngor yn ystyried bwrw ymlaen â'r cynigion ad-drefnu strategol yma, byddai modd i'r Cyngor gadw'r materion yma mewn cof. Yna byddai modd i'r Cabinet benderfynu pa argymhellion sy'n cael eu mabwysiadu, a hynny gyda chyngor y Cyfarwyddwr.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei bod hi'n effro i'r ffaith bod y Rhaglen Band B ar waith ar hyn o bryd, felly os oedd y Pwyllgor yn awyddus i weld gwerthusiad o'r effaith y mae hyn yn ei chael ar fuddsoddi yna efallai dylai'r Pwyllgor edrych ar ysgolion Band A, a hynny gan fod

y rhaglen yma wedi'i chwblhau ers sawl blwyddyn. Byddai cynnal asesiad a gwerthusiad o'r materion sy'n codi, yr heriau, a manteision Rhaglen Band B ar hyn o bryd yn heriol gan fod y datblygiadau yn cael eu cwblhau o hyd.

Ar ôl darllen yr adroddiad, nododd Aelod Adran 3.4 o'r adroddiad, gan ofyn am eglurhad mewn perthynas â gwerth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gan ystyried bod ysgolion Band B bellach yn y cam gweithredu.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wedi cydnabod bod heriau'n codi o hyd wrth lunio rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu, weithiau mae gallu'r Aelodau i ennill dealltwriaeth well o rai materion wedi'i gyfyngu gan amgylchedd y Pwyllgorau. O ran pwrpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mae'r Grŵp yn ychwanegu gwerth drwy roi cyfle i Aelodau ymchwilio i fater ymhellach, felly mae'n bwysig mabwysiadu dull sy'n ceisio datblygu argymhellion penodol iawn, i lywio cynigion yn y dyfodol.

Awgrymodd y Cadeirydd ei bod hi bron fel dechrau yn y man gorffen, e.e. beth ydy'r grŵp eisiau ei gyflawni? beth ydyn nhw eisiau dysgu?, felly roedd hyn yn glir iawn cyn cychwyn ar y darn o waith, gan gydnabod yr adborth cadarnhaol gan Estyn.

Nododd Aelod eu bod nhw wedi cael gwybod mewn cyfarfod blaenorol nad oedd unrhyw waith gwerthuso mewnol wedi'i gynnal mewn perthynas â phrosesu a datblygu ysgolion Band A. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnig cyfle i wneud hynny, fel bod modd defnyddio'r hyn a ddysgwyd pe byddai cynlluniau tebyg yn cael eu cynnal yn y dyfodol, gan fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbed arian.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch y cyfeiriad at ysgolion 3-19 oed, roedd yr Aelod wedi cymryd yn ganiataol bod ysgolion pob oed wedi'u cynnwys yn hyn, nid un categori penodol yn unig.

O ran deilliannau Ysgolion Band A, esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod deilliannau'r ysgolion wedi'u cynnwys yn rhan o'r adroddiadau CCD, adroddiadau ar waharddiadau ac adroddiadau mynychu'r ysgol sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor bob blwyddyn. Yn ogystal â hyn, roedd CCD wedi darparu crynodeb o ddeilliannau Estyn, felly roedd rhywfaint o dystiolaeth am gyflawniad yr ysgolion hynny sydd wedi elwa o fuddsoddiad Band A. Mae gwerthuso'r rhaglen Band A yn faes cymhleth, ac mae'n bwysig ein bod ni'n canolbwyntio ar y materion cywir wrth gynnal y gwaith yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a thrafod y camau nesaf a'r ffordd ymlaen arfaethedig; a

2. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wneud y trefniadau angenrheidiol.

(**Nodwch**: Roedd y cynnig aflwyddiannus i beidio â sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gan ystyried nad oedd gan Estyn unrhyw argymhellion na phryderon a gan fod Estyn yn cytuno bod y cynigion trefniadaeth ysgolion yn ystyried anghenion y gymuned, yn hyrwyddo cydraddoldeb a darpariaeth ar gyfer disgyblion, a gan fod ysgolion Band B bellach yn y broses weithredu, a gan

ystyried rhaglen waith brysur y Pwyllgor, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd S Emanuel).

## 12 DATA'R GWEITHLU ADDYSG

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y newyddion diweddaraf i Aelodau mewn perthynas â data'r gweithlu addysg yn y 115 ysgol ledled Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â data penodol am weithlu'r sector cyfrwng Cymraeg, gan nodi bod yr adroddiad yma'n adroddiad a gafodd ei lunio ar y cyd â chydweithwyr o'r adran AD, gan ddefnyddio 3 adnodd data allweddol. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y cyd-destun yn Adran 4, cyn trafod Adran 5 sy'n ymwneud â data iTrent. Yna, aeth y Cyfarwyddwr ati i ddarparu trosolwg o ddata staff addysgu (ym mhob sector) fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1; data staff addysgu (cyfrwng Cymraeg) yn Atodiad 2; a data staff cymorth fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 3, cyn rhannu data CYBLD yn Adran 6. Aeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ati i drafod Data ynglŷn â'r Gymraeg yn Adran 7 cyn crynhoi'r casgliadau yn Adran 14 o'r adroddiad.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am gyflwyno'r adroddiad.

Roedd Aelod wedi gofyn am eglurhad ynghylch cadw staff mewn pynciau craidd e.e. Ffiseg.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cydnabod bod recriwtio athrawon ar gyfer pynciau craidd yn heriol yn y sector addysg cyfrwng Saesneg a'r sector addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae hi'n arbennig o anodd yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg. Mae yna her o ran cynyddu nifer yr athrawon sydd ar gael, ac roedd hi'n ansicr ynghylch sut y bydd Prifysgolion yn llwyddo i gwrdd â thargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o ran addysg gychwynnol i athrawon. Roedd y gwasanaeth yn effro iawn i'r ffaith bod pobl yn symud o fewn y system ac mae cadw staff yn her fawr.

Holodd Aelod pa waith sy'n cael ei wneud i annog staff sydd ddim yn siarad Cymraeg i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod yr Adran AD wedi mynd i ysgolion gwahanol i recordio unigolion er mwyn rhannu'u profiadau gwahanol a chyhoeddi'r llwyddiannau ar wefan y Cyngor, i ddangos sut mae modd i bobl symud i rolau a sectorau gwahanol. Yn rhan o ddeilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy'n canolbwyntio ar sicrhau staff digonol yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg, mae modd i ni weld nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud yn y maes yma. Mae angen gwneud rhagor er mwyn annog unigolion i fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael. Mae is-grwp marchnata wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo'r neges, ynghyd ag ailwampio'r wefan i ddenu staff posibl. Mae llawer o staff yn y sector addysg cyfrwng Saesneg sydd heb ddigon o hyder i addysgu yn Gymraeg, ond gyda'r cymorth iawn mae'n bosibl y byddai modd iddyn nhw symud i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae llawer o waith i'w wneud ac mae sicrhau cynnydd o ran niferoedd staffio yn mynd i fod yn heriol, ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i geisio gwella'r elfen yma.

Holodd Aelod pa mor aml ydy disgyblion yn mynychu gwers lle dydy'r athro ddim yn arbenigwr.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant nad oedd y data yma wedi cael ei gasglu ond mae'n rhaid i'r sector addysg cyfrwng Cymraeg fod yn greadigol iawn wrth uwchsgilio staff, sydd efallai ddim yn arbenigwyr mewn pynciau penodol, fel bod modd iddyn nhw addysgu ystod eang o bynciau, gan ei bod hi'n bwysig sicrhau bod gan y person sy'n addysgu'r plant y sgiliau a'r wybodaeth gywir. Roedd hi'n bwysig sicrhau mynediad i'r cyfleoedd dysgu proffesiynol cywir a manteisio ar gymorth CCD, yn ogystal â hyrwyddo llwybrau gwahanol i faes addysgu, e.e. annog graddedigion i ymgymryd â swyddi cymorth dysgu er mwyn manteisio ar hyfforddiant pellach i ddod yn athrawon. Roedd llawer o ddulliau creadigol ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn, ond does dim ateb cyflym i'r her genedlaethol yma.

Holodd yr Aelod a yw'r her yma wedi cael effaith ar ddeilliannau Addysg.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cydnabod bod pob arweinydd eisiau sicrhau bod gan y plant fynediad i staff arbenigol, ac un o flaenoriaethau strategol y Gyfarwyddiaeth yw sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg yn rhan o gwricwlwm trawsnewidiol, sy'n gwella deilliannau. Mae'r holl ddysgu proffesiynol sy'n cael ei ddarparu gan GCD yn canolbwyntio ar uwchsgilio'r gweithlu, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu cwricwlwm cyffrous. Y gobaith oedd y byddai'r diffyg o ran staff arbenigol wedi lleihau'n sylweddol ers y pandemig, ond roedd absenoldebau staff a heriau o ran recriwtio yn parhau i fodoli. Roedd y data'n dangos bod iechyd meddwl yn broblem, ond mae'r garfan AD yn gwneud llawer o waith i gefnogi lles y gweithlu drwy gynnig cymorth iechyd galwedigaethol, gyda gweithwyr proffesiynol sy'n codi ymwybyddiaeth yn ogystal â chefnogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

Roedd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol hefyd wedi rhannu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i staff, gan esbonio bod y cymorth sydd ar gael i staff ysgol yn cael ei ddarparu ar ôl 3pm, er mwyn sicrhau nad oedd hyn yn effeithio ar y diwrnod ysgol, yn ogystal â chyflwyno CARI - er mwyn cefnogi iechyd meddwl.

Holodd Aelod am y ganran uchel o bobl sy'n gadael y swydd ar ôl blwyddyn, gan ofyn am eglurhad pellach mewn perthynas â'r ganran yma ac a yw gwaith monitro yn cael ei gynnal mewn perthynas ag athrawon newydd gymhwyso.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y cymorth yma'n allweddol. Mae Adroddiadau Blynyddol CCD sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn esbonio'r holl gymorth sydd ar gael i gefnogi athrawon newydd gymhwyso. Nodwyd bod cadw staff yn allweddol, ynghyd ag ennill dealltwriaeth o'r pwysau y mae'r gweithlu'n ei wynebu yn dilyn y pandemig, o ran ymddygiad ac wrth i ddisgyblion ailymgysylltu ag addysg. Nodwyd ei bod hi'n bwysig bod cymorth yn cael ei ddarparu i athrawon newydd gymhwyso, i sicrhau nad oedd athrawon yn cael eu llethu gan yr heriau yma. Ar y cyfan, mae ysgolion yn eithaf da o ran cadw staff.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyflawniad - Ysgolion Cynradd RhCT yr Aelodau at wefan CCD, gan amlygu'r rhestr o gymorth sy'n cael ei ddarparu o dan adran 'Athrawon Newydd Gymhwyso a Sefydlu'. Mae gan GCD garfan o bobl sy'n gweithio'n agos gyda'r ANG i sicrhau eu bod nhw'n cyflawni'r safonau yma.

Gofynnodd y Cadeirydd, ar ran Aelod o'r Pwyllgor, am eglurhad pellach ynghylch staff dros dro sy'n symud i swyddi parhaol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol fod nifer o staff yn cael eu cyflogi ar gontractau dros dro i ddechrau, yn aml iawn mae hyn yn gysylltiedig â threfniadau cyllid. Esboniodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y byddai angen gwneud gwaith ymchwil pellach i gadarnhau faint o staff sydd wedi symud o swyddi dros dro i swyddi parhaol, er bod hyn yn digwydd yn aml.

Holodd yr Aelod a oes gan Gyngor RhCT gronfa o staff cyflenwi ac a yw'r athrawon yn defnyddio system Teacher Booker.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol nad oedd Cyngor RhCT wedi cynnal cronfa staff cyflenwi ers sawl blwyddyn, er bod ysgolion unigol yn rheoli nifer fach o staff cyflenwi, gan amlaf, caiff y rhain eu dyrannu i ysgolion penodol. O ran system Teacher Booker, nodwyd nad yw'r system yn gwbl weithredol ar hyn o bryd, ond mae gwaith yn cael ei gynnal rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatrys y broblem yma, felly mae'n bosibl y bydd y system yn cael ei defnyddio yn y dyfodol.

Holodd Aelod am yr hyn sy'n cael ei wneud i gadw athrawon neu eu symud nhw i ysgolion eraill, os yw ysgolion yn lleihau o ganlyniad i'r argyfwng ariannol.

Nododd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol fod y gwasanaeth yn ceisio adleoli'r athrawon yma i ysgolion eraill os yw unigolyn yn colli'i swydd, neu'n defnyddio trefniant lle mae ysgolion eraill yn creu cyfle i unigolyn arall ymddeol ac yna'n llenwi ei swydd (bump redundancy), mae hyn wedi bod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd. Byddai modd defnyddio hyn ar gyfer staff cymorth hefyd, yn rhan o broses rheoli newid y Cyngor. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i ysgolion gytuno i dderbyn staff newydd, oherwydd natur ymreolaethol y cyrff llywodraethu, does dim modd gwarantu y bydd modd adleoli pob aelod o staff.

Gofynnodd Aelod am eglurhad pellach o ran adenillion o fuddsoddi mewn perthynas ag ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, gan nodi nad oedden nhw wedi gweld unrhyw swyddi addysgu'n cael eu hysbysebu hyd yn hyn.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol nad oedd ganddo fynediad i fanylion y costau yn y cyfarfod, ond esboniodd fod yr ymgyrchoedd diweddar ar gyfer staff gofal cymdeithasol a staff glanhau wedi bod yn llwyddiannus iawn, felly byddai tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod yr ymgyrchoedd yma wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y gwaith hyrwyddo a marchnata'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a bydd ymgyrch yn cael ei chynnal ar y cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod am eglurhad mewn perthynas â manylion daearyddol yr athrawon a staff cymorth e.e. sawl aelod o staff sy'n byw yn y sir a thu hwnt i'r sir ac ati.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y byddai modd casglu'r wybodaeth yma, a'i rhannu ag Aelodau.

Cyfeiriodd yr Aelod at Addysgwyr Cymru a'r hyfforddiant addysg gychwynnol i athrawon, gan holi a yw targedau Llywodraeth Cymru'n realistig, a beth sy'n cael

ei wneud er mwyn cyflawni'r targedau yma.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod Llywodraeth Cymru'n ceisio pennu ffyrdd creadigol i fynd i'r afael â hyn, a bod Cynllun Gweithlu ar waith. Mae recriwtio yn cyflwyno heriau gwahanol, ond mae'r mater yma'n cael ei nodi fel her a phryder mewn cyfarfodydd Cymru gyfan.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi bod Aelodau wedi adolygu a chraffu ar gynnwys yr adroddiad;

2. Nodi bod Aelodau wedi trafod a ydyn nhw'n bwriadu cynnal gwaith craffu pellach mewn perthynas ag unrhyw elfennau o'r adroddiad ac a oes angen derbyn adroddiadau pellach yn y dyfodol.

## 13 MATERION DERBYN DISGYBLION

Cyflwynodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu grynodeb o'r broses derbyn disgyblion flynyddol, sy'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes derbyn disgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/2023 a'r dyddiadau ymgeisio ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Cyflwynodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu'r wybodaeth sydd yn Adran 4, sy'n cynnwys crynodeb o'r broses derbyn disgyblion flynyddol, ceisiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, y broses apelio, ceisiadau hwyr, cyfrifoldeb rhiant, ysgolion pob oed, yr amserlen ar gyfer 2023/24, rhestr aros a derbyn disgyblion ar adegau gwahanol. Roedd Adran 5 yn cynnwys rhagor o fanylion am y sector Cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys data. Roedd Adran 6 yn amlinellu manylion derbyn disgyblion ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig, ac roedd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu wedi dod â'i chyfraniad hi i ben drwy gyfeirio at Adran 7, sy'n cynnwys manylion am y Panel Mynediad Teg.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu am gyflwyno'r adroddiad.

Gofynnodd Aelod am eglurhad pellach o ran symud disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Nododd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod dewis y rhieni yn dylanwadu ar hyn, gan nodi nad oedd ysgolion cynradd yn cyflenwi ysgolion uwchradd penodol, felly mae hyn yn golygu bod angen cydymffurfio â'r cod derbyn disgyblion statudol. Mae hyn yn golygu bod modd i blentyn Blwyddyn 6 mewn Ysgol Pob Oed wneud cais i symud i Flwyddyn 7 mewn ysgol arall.

Ceisiodd Aelod eglurhad pellach am fanylion y disgyblion sy'n trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, ai trosglwyddiadau mewnol yn RhCT yw'r rhain, neu ydyn nhw'n cynnwys disgyblion sy'n symud i'r Fwrdeistref Sirol? Nododd yr Aelod fod nifer y disgyblion ysgol uwchradd sy'n symud yn ystod y flwyddyn yn edrych yn uchel iawn, gan holi a oes rheswm dros hyn.

Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod 51.81% o'r disgyblion a symudodd ysgol yn ystod y flwyddyn

wedi gwneud hynny o ganlyniad i symud tŷ, ond yn anffodus, does dim hawl cyfreithiol i ofyn pam bod hyn yn digwydd. O ran ysgolion uwchradd, mae swyddog trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â rhieni i geisio deall y rhesymau dros wneud hyn, cyn cymeradwyo'r cais i drosglwyddo.

Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch pam y mae rhieni yn dewis anfon eu plant i ysgol eglwysig, er enghraifft, yn hytrach na'r ysgol gysylltiedig.

Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod gan ysgolion ffydd eu hawdurdod derbyn disgyblion eu hunain, ac roedd hyn felly yn ymwneud â dewis y rhieni, gan amlaf bydd rhieni'n cyflwyno cais ar gyfer 2 ysgol, 1 ysgol RhCT ac 1 ysgol ffydd.

Nododd yr Aelod ei bod hi'n anodd cynllunio'n strategol gan ystyried y newid sylweddol o ran niferoedd, gan holi a oes modd cynnal unrhyw waith pellach mewn perthynas â hyn.

Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod e-bost wedi cael ei anfon at bob ysgol gynradd sy'n cynnwys ragamcanion niferoedd disgyblion, a hynny er mwyn nodi ysgolion uwchradd fel bod modd iddyn nhw weithio'n agos â'r ysgolion cynradd cysylltiedig. Un peth arall a gafodd ei wneud gydag ysgolion uwchradd oedd croesgyfeirio'r ceisiadau dyblyg gyda'r ysgolion ffydd ar ôl i'r broses derbyn disgyblion gau ym mis Hydref. Cafwyd trafodaeth gyda phennaeth unrhyw ysgol gynradd lle roedd nifer uchel o geisiadau ar gyfer ysgol ffydd, i ddysgu pam ddigwyddodd hyn, ond yn y pen draw, dewis y rhieni oedd hyn.

O ran cyfnodau pontio esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal cyfnodau pontio ar gyfer sawl ysgol. O ran ysgolion cysylltiedig, roedd dyletswydd arnyn nhw i sicrhau digon o leoedd er mwyn cwrdd â'r galw yn lleol, ond gallai hyn fod yn heriol os oedd newid o ran tueddiadau, e.e. mae'n anochel y bydd ysgol newydd sbon yn denu nifer uchel o geisiadau. Caiff trafodaethau ynghylch gwella ysgolion eu cynnal pan fydd tueddiadau o ran derbyn disgyblion yn dod i'r amlwg, ond mae'r ddeddfwriaeth yn cefnogi hawl y rhiant i ddewis.

Cyfeiriodd Aelod at y tabl sydd wedi'i nodi yn 4.2, sy'n trafod ail/trydydd dewis disgyblion Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022, gan ofyn a oedd hyn yn ymwneud â chapasiti. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad pellach ynghylch y broses apelio, gan nodi fod 23 apêl wedi dod i'r amlwg, gydag 20 apêl lwyddiannus.

Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod y broses apelio wedi'i rhannu'n 2 rhan. Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol a'r Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu ystyried ffeithiau a ffigurau, a ph'un a oes lle yn yr ysgol neu beidio. Ni fyddai modd i'r Awdurdod ystyried y rhesymau y byddai panel yn eu hystyried gan gynnwys amgylchiadau personol a nifer o resymau gwahanol dros ddewis ysgol benodol. Pan fydd rhieni'n cyflwyno cais, rhaid i'r Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod yn ddu a gwyn a dweud bod yr ysgol yn llawn. Fodd bynnag, yn ystod yr apêl, byddai modd i'r panel ystyried yr achos unigol, felly mae gan y panel yr hawl i wrthod penderfyniad yr Awdurdod Lleol, ac mae penderfyniad y panel yn gyfreithiol-rwym ar gyfer yr Awdurdod Lleol a'r ysgol.

Gan gyfeirio at dderbyn disgyblion i Ysgolion Cymraeg, nododd Aelod fod y galw

am leoedd yn cynyddu felly holodd pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith os na fydd digon o leoedd ar gael ac a yw disgybl erioed wedi cael ei wrthod o Ysgol Gymraeg o ganlyniad i ddiffyg lleoedd.

Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod modd i bobl apelio yn achos cais ar gyfer lle mewn dosbarth derbyn neu ddosbarth uwch. Hyd yn hyn, dydy'r Awdurdod ddim wedi gwrthod lle mewn Ysgol Gymraeg, er bod darpariaeth amgen wedi cael ei chynnig ar gyfer dosbarthiadau meithrin, os oedden nhw'n llawn.

Gofynnodd Aelod a fyddai modd gweld ffigurau ynghylch nifer y plant sy'n trosglwyddo o Ysgol Saesneg i Ysgol Gymraeg, gan awgrymu y byddai modd cyflwyno gwybodaeth am hyn ar ôl cwblhau'r gwaith trochi.

O ran y gwaith trochi, esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod yr athro trochi yn mynychu cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal gyda'r ysgolion Band B newydd, er mwyn esbonio'r opsiynau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, felly mae hyn yn cael ei hyrwyddo erbyn hyn.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.2, sy'n nodi bod yr ymgeisydd ddim yn gymwys i wneud cais o ganlyniad i oedran y plentyn (Dosbarth Cyn-meithrin, Ionawr 2023, colofn 406) a holodd beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod rhieni'n gwybod pryd i gyflwyno cais.

Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu fod hyn yn cyfeirio at rieni sydd wedi cyflwyno cais, ond mae'r plentyn yn rhy ifanc. Felly rydyn ni wedi cynyddu faint o waith marchnata a hyrwyddo sy'n cael ei wneud ac mae hyn yn cynnwys mynychu Picnic y Tedis, sy'n denu oddeutu 3,000 o rieni, yn ogystal ag esbonio'r dyddiadau pwysig i ymwelwyr iechyd. Os yw rhieni'n cyflwyno cais yn gynnar, byddan nhw'n cael eu symud i'r dyddiad cymwys.

Cyfeiriodd yr Aelod at 4.5, cyfrifoldeb rhiant, a holodd am nifer yr achosion.

Roedd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu wedi cydnabod yr achosion sydd wedi'u nodi, ond nododd eu bod nhw'n ceisio peidio â bod yn rhan o'r achosion yma ble bynnag y bo modd a dyma pam mae'r dull sy'n rhoi'r cyfrifoldeb goruwchreoli i'r person â chyfrifoldeb rhiant wedi cael ei gyflwyno.

Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 69 gan holi a fyddai modd gweld dadansoddiad o drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn ôl ADY.

Cadarnhaodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu y byddai modd iddi ddarparu manylion pellach mewn perthynas ag ADY, o ran y Datganiad CYBLD.

Cyfeiriodd yr Aelod at adran 7, sy'n trafod y Panel Mynediad Teg, gan nodi bod 55 atgyfeiriad wedi'i wneud. Holodd yr Aelod sawl atgyfeiriad trosglwyddo yn ystod y flwyddyn a gafodd ei wneud gan rieni (cyfanswm o 12) oedd wedi cael lleoliad yn yr ysgol o'u dewis.

O ran y Panel Mynediad Teg, esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu ei bod hi'n anodd trefnu

lleoliad ar gyfer y plant yma sydd ag anghenion emosiynol amrywiol ac sy'n gallu bod yn eithaf heriol, felly mae'n fater o gefnogi'r rhieni a'r plant wrth iddyn nhw symud ysgol fel eu bod nhw'n derbyn y cymorth a'r anogaeth angenrheidiol i sicrhau eu bod nhw'n cael eu rhoi yn yr ysgol orau bosibl.

Roedd y Cadeirydd o'r farn y byddai'n ddefnyddiol clywed gan y swyddog ei hun, y tro nesaf y bydd gwaharddiadau yn cael eu trafod, gan gynnwys rhai astudiaethau achos dienw.

Daeth y Cadeirydd i ben drwy nodi bod llawer o waith yn cael ei wneud, nid yn unig gwaith gweinyddol, ond gwaith cyfryngu, cyfathrebu â rhieni ac ati hefyd, ac roedd angen nodi hyn. Gofynnodd y Cadeirydd fod Pennaeth Trawsnewid Gwasanaethau, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu yn rhannu'r gydnabyddiaeth yma gyda'i charfan.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a thrafod a yw'r Pwyllgor yn dymuno cynnal gwaith craffu mwy manwl mewn perthynas â rhai elfennau o'r adroddiad.

## 14 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddogion am eu hadroddiadau manwl a'u diwydrwydd wrth ateb cwestiynau. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau nhw, cyn atgoffa Aelodau y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar ddydd Iau, 28 Medi 2023, gan atgoffa Aelodau i gysylltu â'r Uwch Swyddog Democrataidd a Chraffu mewn perthynas â'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol - 'Bwyd a Hwyl', a fydd yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 9 Awst 2023.

## 15 MATERION BRYS

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.02 pm**

**Y Cynghorydd S.Evans**
**Cadeirydd.**